# Llunio a chreu siapiau i flew’r wyneb gan ddefnyddio technegau ar lefel uwch

## Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1Gweithredu, a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol**. a **SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** Mae'r safon yma'n ymwneud â **rhywun o'r proffesiwn trin gwallt yn ail-lunio, siapio a phersonoli blew'r wyneb gan ddefnyddio technegau llawrydd, clipiwr a rasel ar lefel uwch. Bydd gofyn i chi hefyd werthuso ac adfyfyrio ar ôl y gwasanaeth er mwyn ei wella'n barhaus. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon yma sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau, gweithdrefnau a'r canllawiau arferion gorau diweddaraf. Caiff defnyddwyr y safon yma eu cynghori i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â, gofynion cymorth cyntaf, yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau.

**Y prif ddeilliannau yw:**

1. ail-lunio a siapio mwstas
2. ail-lunio a siapio barf rhannaol a mwstas
3. ail-lunio a siapio barf llawn a mwstas

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn

1. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwyddebau a chanllawiau, i gynnwys:

2.1 cael gwared o ddarnau o flew dros ben a thoriadau o flew wyneb o groen yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth

2.2 codi blew sydd dros ben oddi ar y llawr er mwyn osgoi anaf

3. trafod a darganfod amcanion yr unigolyn a'r canlyniadau a ddymunir, er mwyn cael y wybodaeth ar gyfer y cynllun gwasanaeth torri blew, i gynnwys:

3.1 ystyried strwythurau anatomegol y pen a'r wyneb

3.2 dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth

1.
edrych ar amrywiaeth o siapiau ar gyfer blew'r wyneb y gellir eu cyflawni gyda'r unigolyn gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol
2.
gwneud dadansoddiad o flew'r wyneb a'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun gwasanaeth, i gynnwys:

5.1 **dosbarthiad cyrls y blew**
*5.2* *nodweddion y blew **

**5.3 patrymau tŵf blew'r wyneb

5.4 dosbarthiad y croen

5.5 cyflwr y croen

5.6 blew yn tyfu am i fewn

5.7 tylliadau i'r wyneb

1. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, ei fod wedi deall y gwasanaeth torri blew'r wyneb arfaethedig i gynnwys:

6.1 gwrth weithredoedd
6.2 adweithiau niweidiol

7. sicrhau cydsyniad gwybodus gan yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth torri blew'r wyneb

1.
paratoi'r croen a'r blew yn unol â'r **protocolgwasanaethtorri blew'r wyneb**
2.
dewis **offer a chyfarpar** sy'n addas ar gyfer anghenion yr unigolyn ac er mwyn sicrhau'r edrychiad a ddymunir, i gynnwys:

9.1 trin a defnyddio'r offer a'r cyfarpar mewn modd diogel er mwyn osgoi niwed i'r croen a'r blew

1. creu a thorri'r amlinelliad cychwynnol gan ddefnyddio **technegau torri blew'r wyneb** yn unol â'r cynllun gwasanaeth torri blew'r wyneb i gynnwys:

10.1 cadarnhau gyda'r unigolyn ei fod eisiau bwrw ymlaen gyda thorri blew ei wyneb

11. torri blew wyneb yr unigolyn gan ddefnyddio'r canllawiau er mwyn sicrhau bod pwysau, cymesuredd, cydbwysedd a siap yn cael eu sicrhau yn unol â'r protocol torri blew'r wyneb, i gynnwys:

11.1 cylchdroi eich safle o gwmpas yr unigolyn er mwyn sicrhau cywirdeb y toriad

11.2 addasu eich technegau torri blew er mwyn personoli siap blew'r wyneb

12. croes-wirio’r toriad er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o bwysau, cymesuredd, cydbwysedd a siâp

1. siapio cylchfesurau'r blew gan ddefnyddio technegau torri blew gan gymryd i ystyriaeth

13.1 y rhimyn blew naturiol

13.2 patrymau tŵf blew'r wyneb

14. cwblhau gwasanaeth torri blew'r wyneb gan sicrhau bod yr unigolyn yn rhydd o ddarnau o flew yn unol â'r protocol torri blew'r wyneb i gynnwys:

14.1 dodi cynnyrch ôl-driniaeth

1.
monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth torri blew'r wyneb
2.
gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
3.
cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a'u cadw yn unol â deddfwriaeth data
4.
defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso'r gwasanaeth torri gwallt a chymryd camau priodol
5.
rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth
6.
cofnodi canlyniad y gwasanaeth torri blew'r wyneb a'r gwerthusiad ohono

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau torri blew'r wyneb a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu

   1. pam bod rhaid i chi gydymffurfio gydag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol; i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau drosoch chi eich hun a'ch adeiladau o dan reoliadau trwyddedu yr awdurdod lleol

1.
pwysigrwydd ymwneud â, a dogfennu datblygiad proffesiynol parhaus, i gynnwys, polisïau gwybodaeth wedi eu diweddaru, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer arfer gorau
2.
yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma
3.
y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r gwasanaeth torri blew, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol a chyfeirio

1.
pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd ar y croen a niwed i groen y pen, a'u cyfeirio at weithiwr proffesiynol gofal iechyd perthnasol
2.
cyfyngiadau technegau torri blew'r wyneb a'r addasiadau sy'n ofynnol, mewn perthynas â'r canlynol:

7.1 dosbarthiad croen a chyrls y blew

7.2 cyflwr y croen a'r blew

7.3 patrymau tŵf blew'r wyneb

7.4 strwythurau anatomegol y pen a'r wyneb

7.5 tylliadau i'r wyneb

7.6 hoffterau'r unigolyn

7.7 disgwyliadau'r unigolyn

1. y mathau traddodiadol a chyfredol o siapiau blew'r wyneb a siapiau llinell y gwddf, i gynnwys:

8.1 sut i nodi gwahanol siapiau o flew'r wyneb

8.2 sut mae patrymau tŵf blew'r wyneb yn effeithio ar y dewis o siap blew'r wyneb

1.
strwythurau anatomegol y pen a'r wyneb a sut maent yn effeithio ar y gwasanaeth torri blew'r wyneb
2.
sut i asesu amlinellau a nodweddion wyneb yr unigolyn er mwyn penderfynu ar y siapiau priodol i'r wyneb

11. pryd a pham mae'r croen a'r blew yn cael eu glanhau o flaen gwasanaeth torri blew'r wyneb

1. pam dylech chi gribo'r blew cyn y gwasanaeth torri blew'r wyneb

13. y mathau o dechnegau torri blew’r wyneb ar gyfer pob dosbarthiad o gyrls y blew a nodweddion y blew,a phryd a sut i’w defnyddio, i gynnwys:

13.1 y siap a'r dyfnder cyffredinol

13.2 dyfnder y trimio amlinellol sydd ei angen

1.
sut i bersonoli technegau torri blew'r wyneb
2.
pwysigrwydd ystyried patrymau tŵf naturiol er mwyn creu dosbarthiad pwysau cytbwys
3.
y rhesymau dros sefydlu a dilyn canllawiau
4.
sut i greu a dilyn canllaw ar gyfer siap y wyneb
5.
y risgiau cysylltiedig o doriadau blew'r wyneb yn agos at groen agored
6.

y risg o flew yn tyfu am i mewn o ganlyniad i dorri parhaus yn agos

7.

achosion creithio celoid a'r rhagofalon i'w cymryd

8.

pwysigrwydd croes-wirio cymesuredd a chydbwysedd y toriad

9.

sut i ddefnyddio, lefelu a phrofi cliperi

10.

maint a'r mathau o gliperi, llafnau cliper ac atodiadau sydd ar gael a'r effeithiau mae'r rhain yn eu cyflawni

11.

y mathau o broblemau all ddigwydd pan yn torri blew'r wyneb a sut gellir eu cywiro

12.

pwysigrwydd ymgynghori gydag unigolion drwy gydol y broses o dorri blew'r wyneb

13.

yr adweithiau niweidiol a gysylltir â'r gwasanaeth torri blew'r wyneb a sut i ymateb iddynt

14.

y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

15.

pam ei bod yn bwysig trafod gyda a chanfod gan yr unigolyn ei amcanion, ei bryderon, ei ddisgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun gwasanaeth torri blew'r wyneb

16.

y strwythurau taliadau a'r dewisiadau ar gyfer gwasanaeth

30.amseroedd y gwasanaeth yn unol â'ch polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol

31. y gofynion deddfwriaethol a digollediad ynglŷn â sicrhau cydsyniad gwybodus am y gwasanaeth

1. pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth torri blew'r wyneb

33. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

34. y rhesymau dros gymryd cyfryngau gweledol o fan triniaeth yr unigolyn a'i gadw yn unol â'r gofynion gwasanaeth, deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol

1.

y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ynglŷn â chwblhau a chadw cofnod gwasanaeth torri blew'r wyneb

2.

canlyniadau disgwyliedig gwasanaethau torri blew'r wyneb

3.

diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaethau yn y dyfodol

4.

pwysigrwydd cofnodi canlyniad a gwerthusiad o'r gwasanaeth torri blew'r wyneb

5.

y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth torri blew'r wyneb

## Cwmpas/Ystod